

Ad-drefnu Gwasanaethau Dan Arweiniad Bydwragedd: Dogfen Wybodaeth

Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad bydwragedd o fewn y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â rhoi gwybod am faterion diweddar sydd wedi dod i ran y gwasanaeth a phennu cynigion ynglŷn â sut y gellir darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae'n bwysig i bawb â buddiant mewn gwasanaethau mamolaeth gael cyfle i ddeall y cynigion a rhoi gwybod inni beth yw eu barn.

Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gyfrifol am yr holl wasanaethau iechyd a ddarperir trwy hen sir Gwent (yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent), yn ogystal â rhywfaint o boblogaeth de Powys. Mae'r model gofal dan arweiniad bydwragedd o fewn y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gynorthwyo menywod, y rhai sy'n rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd trwy ddarparu gofal caredig a thosturiol, gan ddefnyddio tystiolaeth o ansawdd i lywio penderfyniadau. Y bwriad yw sicrhau profiadau cadarnhaol mewn perthynas â beichiogrwydd a geni plant – profiadau a fydd yn hybu llesiant ac yn rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i fabanod.

Mae gan wasanaethau mamolaeth ddyletswydd gofal i sicrhau bod y ddarpariaeth mewn perthynas â gwasanaethau dan arweiniad bydwragedd yn ddigonol, fel y gellir diwallu'r galw ym mhob ardal. Mae dewis yn hanfodol i ofal mamolaeth a dylai pob menyw allu gwneud dewisiadau ynglŷn â'r lleoliad y bwriadant roi genedigaeth.

Y modd y rhoddir y gwasanaeth ar waith

Yn unol ag arferion gorau, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnig pedwar opsiwn geni gwahanol ar gyfer menywod beichiog, sef:-

- Rhoi genedigaeth yn y cartref
- Uned eni annibynnol dan arweiniad bydwragedd (heb ddarpariaeth feddygol ar y safle – neu FMU)
- Uned gyfochrog dan arweiniad bydwragedd (gyda darpariaeth feddygol ar y safle – neu AMU)
- Uned obstetrig lawn dan arweiniad ymgynghorwyr gyda staff meddygol a staff bydwreigiaeth

Rhwng Tachwedd 2020 (pan agorodd yr ysbyty newydd ger Cwmbrân, sef Ysbyty Athrofaol y Faenor) a Mai 2022, roedd genedigaethau dan arweiniad bydwagedd ar gael ar bump o safleoedd y Bwrdd Iechyd, sef:

- Unedau annibynnol dan arweiniad bydwagedd (FMU) yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach, Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni ac Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglynebwy
- Uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ger Cwmbrân (lle lleolir yr uned obstetrig dan arweiniad ymgynghorwyr)

Yn draddodiadol, arferai'r unedau hyn gael eu staffio gan fydwagedd o'n tîm cymunedol. Yn Ysbyty Ystrad Fawr, gwneir hyn fel arfer trwy drefnu i staff weithio sifftiau ffurfiol dros 24 awr, tra mae'r unedau eraill yn defnyddio bydwagedd sydd ar alwad ac sy'n mynychu pan fydd menywod angen gofal neu'n dod i'r uned.

Materion diweddar sy'n effeithio ar y gwasanaeth

Ceir llawer o dystiolaeth sy'n dangos bod rhoi genedigaeth mewn unedau annibynnol dan arweiniad bydwagedd yn weithred ddiogel. Ond ers Tachwedd 2020, mae'r nifer o fenywod sy'n defnyddio'r unedau hyn wedi bod yn isel iawn, ac mae'r rhan fwyaf yn dewis rhoi genedigaeth yn yr uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Isod, dangosir y ffigurau (ar gyfer genedigaethau dan arweiniad bydwagedd yn unig) yn ystod y cyfnod hwnnw:

	Ysbyty Ystrad Fawr	Ysbyty Brenhinol Gwent	Ysbyty Nevill Hall	Ysbyty Aneurin Bevan	Canolfan Eni Ysbyty Athrofaol y Faenor
2019	279	85	47	1	Amherthnasol
2020	250	30	16	6	Amherthnasol
2021	118	24	20	19	840
2022	83	5	4	14	931

Yn ychwanegol at y duedd gynyddol ymhlith menywod i roi genedigaeth yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cael problemau staffio sylweddol, gan gael cryn anhawster i recriwtio a chadw bydwagedd. Er bod hyn yn digwydd ym mhob ardal, mae ar ei fwyaf amlwg o fewn y gymuned lle cafwyd anhawster i recriwtio. Yn ei dro, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau lefelau staffio priodol ar gyfer ein holl unedau mamolaeth, a cheir pryder cynyddol ynglŷn â'r goblygiadau o ran diogelwch a safonau'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd newid dros dro yn y gwasanaethau geni dan arweiniad bydwagedd er mwyn sicrhau a chynnal darpariaethau diogel. Rhoddwyd y newid hwn ar waith ym mis Mai 2022 ac roedd yn cynnwys y canlynol:-

- Cau unedau geni Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent dros dro.
- Troi Ysbyty Ystrad Fawr yn 'pod geni' o 5.00pm a dros nos (yn hytrach na bod yr uned yn cael ei staffio 24/7).
- Parhau â genedigaethau yn y cartref a genedigaethau ym mhod geni Ysbyty Aneurin Bevan.
- Dim newidiadau i'r uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Cynllunio ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol

O gofio'r heriau parhaus o ran dod o hyd i ddigon o fydwragedd, comisiynodd y Bwrdd Iechyd adolygiad annibynnol o wasanaethau dan arweiniad bydwagedd. Nodau'r adolygiad hwn oedd:

- Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau dan arweiniad bydwagedd
- Pennu'r model staffio mwyaf effeithiol ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn, gan ystyried yr angen am ofal diogel, cynaliadwy ac o ansawdd da, gan fynd ati ar yr un pryd i barhau i roi dewis i fenywod ac ystyried mynediad at wasanaethau ar draws ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd.

Pennodd yr adolygiad bedwar opsiwn ar gyfer ad-drefnu'r gwasanaeth yn y dyfodol, sef:

1. Parhau â'r trefniadau dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd, a'u gwneud yn drefniadau parhaol
2. Dychwelyd at y trefniadau a oedd ar waith cyn gweithredu'r newid dros dro
3. Model 'hybrid' lle byddai unedau Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn aros ar gau, ond ymestyn y cyfleusterau yn Ysbyty Ystrad Fawr
4. Opsiwn hirdymor mwy radical – byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys yn bennaf yr unedau presennol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor gyda chymorth gwasanaethau cymunedol ac opsiynau geni yn y cartref

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried yr opsiynau hyn ar sail nodau'r adolygiad. Daethpwyd i'r casgliad mai gwaith anodd fyddai mynd ati'n barhaol i ddarparu staff ac adnoddau ar gyfer opsiynau 2 a 3, a gallai fod yn anodd cyfiawnhau hyn o gofio'r duedd gynyddol ymhlith menywod i roi genedigaeth yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Ymhellach, ystyriwyd bod opsiwn 4 yn rhy gyfyngol o ran opsiynau geni i fenywod yn y dyfodol. O ganlyniad, ystyrir bellach mai'r opsiwn a ffefrir yw troi'r trefniadau dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd yn drefniadau parhaol, fel y nodir uchod, gyda chymorth gan yr uned obstetrig lawn dan arweiniad ymgynghorwyr a'r uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Ceisio barn y cyhoedd

Er yr ystyrir mai'r opsiwn hwn yw'r model gorau ar gyfer opsiynau diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel gogyfer genedigaethau dan arweiniad bydwagedd, cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad terfynol bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth, staff, gwasanaethau ategol, grwpiau gwirfoddol a phob rhanddeiliad arall. Mae'n bwysig i'r rhai sydd â buddiant yn y gwasanaeth gael cyfle i ddeall y cynigion, cyflwyno adborth a chrybwyll ymholiadau neu bryderon fel y gellir ymateb iddynt. Bydd hyn yn esgor ar wybodaeth werthfawr a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau terfynol a manylion y gwasanaeth. Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i ddiweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau y caiff pawb gyfle i leisio'u barn, mae'r Bwrdd Iechyd am roi cyfnod ymgysylltu 12 wythnos ar waith a fydd yn cynnwys:


- Arddangos gwybodaeth mewn meysydd gwasanaeth, yn cynnwys posteri ac arddangosfeydd
- Rhoi gwybodaeth / ffurflenni arolygu i fenywod beichiog sy'n mynychu apwyntiadau
- Tudalen wybodaeth bwrpasol ar wefan y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin, mynediad at arolwg cleifion (gyda'r opsiwn i gael fersiwn bapur), manau / rhifau cyswllt a diweddariadau wrth i'r cynlluniau fynd rhagddynt
- Digwyddiadau ymgysylltu / sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyfle i gynnal Sesiynau Holi ac Ateb byw ar Facebook os bydd yna ddiddordeb ehangach ymhlith y cyhoedd
- Cyflwyniadau gerbron rhanddeiliaid
- Cyfarfodydd rheoli ar gyfer rhanddeiliaid mewnol y GIG
- Gwaith gyda'r tîm cynhwysiant iechyd

Bwriedir cynnal y cyfnod ymgysylltu rhwng **9.00am ddydd Mawrth 9 Mai 2023 a 5.00pm ddydd Gwener 28 Gorffennaf 2023**

Sut y gall pobl leisio'u barn?

Gellir rhannu barn trwy gyfrwng y dulliau canlynol:-

- Llenwi ein harolwg; gellir dod o hyd iddo ar wefan y Bwrdd Iechyd neu trwy ddefnyddio'r cod QR a'r cod URL isod



Cod URL: <https://forms.office.com/e/RNT1QWwkjq>

- Mynychu un o'n sesiynau gwybodaeth / ymgysylltu cyhoeddus, lle gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynigion a gofyn cwestiynau i'r Bwrdd Iechyd / staff mamolaeth. Mae'r sesiynau hyn wedi'u trefnu fel a ganlyn:-

Dydd Llun 15 Mai 4.00pm – 6.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Nevill Hall Y Fenni
Dydd Mercher 17 Mai 4.00pm – 6.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Brenhinol Gwent Casnewydd
Dydd Gwener 19 Mai 12.00pm – 2.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Ystrad Fawr Ystrad Mynach
Dydd Llun 22 Mai 2.00pm – 4.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Brenhinol Gwent Casnewydd
Dydd Mawrth 30 Mai 2.00pm – 4.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Aneurin Bevan Glynebwy
Dydd Gwener 9 Mehefin 10.00am – 12.00pm	Canolfan Eni Ysbyty Nevill Hall Y Fenni

- Cysylltu â ni trwy e-bost gan nodi unrhyw sylwadau – y cyfeiriad e-bost yw **ABB_BABI@wales.nhs.uk**
- Ein ffonio ar **01633 238874** (gadewch neges er mwyn i rywun allu cysylltu â chi)
- Cyfrannu at unrhyw sgysiaau ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng tudalennau **Facebook, Twitter ac Instagram** y Bwrdd Iechyd

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r cyfnod ymgysylltu ddod i ben?

Ar ôl i'r cyfnod ymgysylltu ddod i ben, bydd yr ymatebion a'r safbwyntiau'n cael eu coladu a bydd adroddiad ymgysylltu'n cael ei lunio. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei

rannu â rhanbarth lleol Llais (sef y corff newydd sydd wedi disodli Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru) a bydd modd llunio casgliadau ynghylch a fydd modd gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn â darpariaethau gofal dan arweiniad bydwagedd yn y dyfodol, ynteu a fydd angen cymryd camau pellach.

Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llais, efallai y byddwn yn cynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol. Pe baem yn dewis gwneud hynny, byddwn yn eich gwahodd i fynegi eich barn drachefn.